Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Y Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **MS Teams** |
| **Dyddiad:** | **31 Mawrth 2025** |
| **Amser:** | **10y.b.-12y.h.** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl, Dr Richard Lewis<br>Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries<br>Prif Weithredwr SCHTh, Carys Morgans<br>Prif Swyddog Cyllid Dros Dro SCHTh, Nicola Davies<br>Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, Linda Williams |
| **Hefyd yn bresennol:** | Swyddog Staff, Yr Arolygydd Gemma Starkey<br>Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Beverley Peatling |

- Roedd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, Linda Williams yn bresennol ar gyfer eitem 3a ar yr agenda – Strategaeth Diwylliant a Moeseg Pobl, eitem 4 – Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl, ac eitem 5c – Diweddariad Datblygu Pobl a'r Sefydliad.

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y CHTh bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Prif Swyddog Cyllid am ei habsenoldeb. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

## 2. Diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu | Crynodeb | Diweddariad |
|---|---|---|
| PB 061 | Amrywiaeth o gynlluniau trosglwyddo adrannol i'w rhannu gyda'r CHTh, fel bod enghreifftiau o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn cael eu rhannu. | **Ar y gweill**<br><br>Cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2025 rhwng y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r CHTh i edrych ar amrywiaeth o gynlluniau adrannol. |

| | | |
|---|---|---|
| PB 062 | Y Swyddog Staff a chynrychiolydd SCHTh i gydweithio i ddrafftio agenda ar gyfer ymweliad y Gweinidog Plismona. | **Ar y gweill**<br>Y Swyddog Staff yn ymwybodol o gynrychiolydd SCHTh ac yn cysylltu pan fo'n briodol. |
| PB 063 | SCHTh i gadarnhau sefyllfa'r Prif Gwnstabl a'r CHTh i Paul Morris o Uned Gyswllt yr Heddlu ynghylch dosrannu'r cyllid sydd ar gael i Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu (SCCHau). | **Wedi'i gwblhau** |
| PB 064 | Y Swyddog Staff i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn trafodaeth yng Ngrŵp y Prif Swyddogion a'r cais am sicrwydd gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch cau'r gorsafoedd tân y bydd yr heddlu'n eu defnyddio. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 14 Ebrill gyda'r Prif Gwnstabl, y CHTh, a Phrif Swyddog y Gwasanaeth Tân. |
| PB 065 | Yr heddlu i ymateb i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi erbyn 14 Mawrth 2025 ynghylch y cynnydd sydd wedi'i gyflawni ar yr argymhelliad ynghylch camfanteisio ar blant. | **Wedi'i gwblhau** |
| PB 066 | Y Prif Weithredwr i adolygu cytundeb S22A mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymraeg ar y platfform e-recriwtio gyda'r Coleg Plismona cyn cyfarfod nesaf Grŵp y Prif Swyddogion a chyfarfod Plismona yng Nghymru. | **Wedi'i gwblhau** |

**3. Pwnc ffocws:**

**a) Strategaeth Diwylliant a Moeseg Pobl 2025-2029**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad Strategaeth Diwylliant a Moeseg Pobl 2025-2029 i'r bwrdd. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o ddod â'r strategaeth at ei gilydd a'r ystyriaethau sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth o ystyried yr hinsawdd allanol a phlismona bresennol a'r hinsawdd fewnol o fewn yr heddlu. Mae'r strategaeth yn manylu ar uchelgais yr heddlu ar gyfer ei weithlu a sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni, sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn cyflawni'r Strategaeth Diwylliant a Moeseg Pobl. Bydd cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn nifer o fetrigau allanol a mewnol, gan gynnwys ymddiriedaeth y cyhoedd ac asesiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Bu'r bwrdd yn trafod agweddau ar y strategaeth, a holodd y Prif Weithredwr a fyddai adroddiad rheolaidd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ynghylch cynnydd yn erbyn y canlyniadau a'r metrigau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad fod gwaith yn parhau gyda'r Uned Gwella Gwasanaethau ar gasglu'r metrigau, a bydd yn ymdrechu i gynnwys yr holl wybodaeth fetrig yn y sleidiau. Holodd y CHTh ynghylch pryd y byddai'r metrigau hyn ar gael i adrodd arnynt, o ystyried bod cryn lwyth gwaith o fewn yr Uned Gwella Gwasanaethau, gyda rhestr flaenoriaeth ar gyfer dangosfyrddau data. Dywedodd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad fod yr Uned Gwella Gwasanaethau yn gweithio ar y cyd ar brosiect gyda'r Adran Adnoddau Dynol ynghylch data ansawdd a chasglu'r data gofynnol.

**b) Strategaeth ffyrdd a phroffil problemau**

Rhannodd y CHTh yr wybodaeth ei fod wedi cyfarfod yn ddiweddar â'r Uwcharolygydd Jolene Mann ac wedi cael sesiwn friffio ar strategaeth ffyrdd a phroffil problemau'r heddlu. Roedd y CHTh yn gefnogol i'r strategaeth a byddai'r arolygwr yn darparu diweddariad pellach i'r bwrdd ymhen chwe mis.

**Camau gweithredu: diweddariad pellach ar y strategaeth ffyrdd a phroffil problemau i'w ddarparu i'r Bwrdd Plismona ym mis Medi 2025.**

Hysbysodd y CHTh y bwrdd y byddai ffyrdd yn bwnc posibl ar gyfer darn o waith gan Bwyllgor Dethol SCHTh sydd ar waith.

**4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl**

a) **Yn y Bwrdd Gofyniad Plismona Strategol diweddar, bu nifer o feysydd yn datgan bod heriau o ran adnoddau, yn enwedig ym meysydd trais yn erbyn menywod a merched a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Beth yw cynlluniau'r Prif Gwnstabl i fynd i'r afael â'r rhain?**

Rhoddodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad i'r bwrdd ynghylch materion a godwyd gan y Ditectif Uwch-arolygydd Dros Dro, Wayne Bevan, yn y Bwrdd Gofyniad Plismona Strategol.

Dim cyllid i gynnal y cydlynydd Cam-drin Domestig a Chyflawnwyr Stelcio y tu hwnt i 31 Mawrth 2025. Mae hyn bellach wedi'i gytuno ac wedi'i ariannu'n barhaol gan Heddlu Dyfed-Powys.

Codwyd materion ynghylch amseroldeb a chyflawniad y Cynllun Datgelu Trais Domestig. Mae'r dangosfwrdd wedi cael blaenoriaeth gan yr adran Gwella Gwasanaethau yn y gwaith sydd ar y gweill gan yr adran.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gefnogaeth i achos busnes Tasgio a Chydlynu Amlasiantaeth a gyflwynwyd yn flaenorol. Adolygiad parhaus o sut y gellir ymgorffori hyn gyda'r ffocws ar ymyrraeth ar gyflawnwyr stelcio (wedi'i gysylltu â chyllid cam-drin domestig a throseddu).

Mae natur dros dro symud unigolyn i Niche wedi achosi problemau wrth gyflenwi staff yr heddlu dros dro mewn swyddogaethau gweinyddol Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg, gan arwain at swyddogion gweithredol yn cyflenwi.
Mae'r rôl dros dro bellach wedi'i gwneud yn un parhaol, ac mae swydd Cydlynydd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn cael ei hysbysebu.

Mae swyddogion yn yr Uned Asesu Risg Eilaidd yn dal i weithio goramser gan nad yw'r achos a gyflwynwyd yn flaenorol ar gyfer y sefydliad wedi'i gefnogi.

Mae'r adran yn parhau i fod o dan y sefydliad a ragwelwyd, ond mae staff dros dro yn parhau i'w chynnal. Manylir ar hyn yng nghynllun adrannol Diogelu Pobl Fregus fel rhan o brosesau'r Cylch Cynllunio a Sicrwydd.

b) **Pa adborth a ddaeth i law o sioeau teithiol y prif swyddogion sy'n mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a amlygwyd yn arolwg Buddsoddwyr mewn Pobl?**

Dywedodd y Prif Gwnstabl fod yr holl gwestiynau a ofynnwyd yn sioeau teithiol y prif swyddogion wedi'u cofnodi a bod yr ymatebion a'r adborth wedi'u darparu i unigolion. Nodwyd bod diwrnod cynllunio ymgysylltu a disgwyliadau hefyd ar y gweill a bod y diwrnod cynllunio'n cynnwys trafod gyda'r uwch-reolwyr yr hyn y disgwylir ohonynt yn eu digwyddiadau disgwyliadau ac ymgysylltu nesaf, a fydd bellach yn cael eu cynnal yn flynyddol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad ei bod wedi cyfarfod â Jackie Lewis, yr Asesydd Buddsoddwyr mewn Pobl, yn ddiweddar a bod argymhellion a gwaith yn y dyfodol yn parhau, a bydd unrhyw adborth ac argymhellion a ddaw o'r gwaith hwnnw'n cael eu bwydo i gynlluniau'r dyfodol.

**c) A roddwyd ystyriaeth i'r adolygiad annibynnol a gomisiynwyd o'r diwylliant o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru? Pa sicrwydd y gellir ei roi nad yw'r canfyddiadau a nodwyd yn cael eu hadlewyrchu yn Heddlu Dyfed-Powys?**

Dywedodd y Prif Gwnstabl fod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn dilyn yr adolygiad o'r diwylliant o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Adran Safonau Proffesiynol ac Adnoddau Dynol i ystyried yn ffurfiol yr argymhelliad ar y materion a godwyd yn adroddiadau'r gwasanaeth tân, a bydd y cyfarfod yn ystyried yr argymhellion a sut y gellir eu hymgorffori yn rhai o'r newidiadau a wneir o fewn yr heddlu. Bydd adroddiad ar hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Pobl, Moeseg a Diwylliant, ac wedi hynny bydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Bwrdd Plismona.

## 5. I'w nodi

### a) Diweddariad y Prif Gwnstabl

Rhoddwyd diweddariad gan y Prif Gwnstabl i'r bwrdd ynghylch digwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar waith da gan yr heddlu, yn ogystal â diweddariadau gweithredol a sefydliadol sylweddol. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Ymgyrch Scotney ac Ymgyrch y Pump Angheuol.

Dywedodd y Prif Gwnstabl, yn dilyn adolygiad o'r tîm plismona ac atal bro, fod argymhelliad yr adolygiad wedi mynd ar waith ar ddechrau mis Mawrth a bod ei effeithiolrwydd yn cael ei fonitro ar hyn o bryd.

**b) Diweddariad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ar ei weithgareddau a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys nawfed cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi'r CHTh ar blismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth, diwrnod ymgysylltu â'r gymuned yng Nghaerfyrddin lle cyfarfu'r CHTh â'r tîm plismona ac atal bro, cyfweliad gan Barod Media, ac ymweliad â Chanolfan Byw'n Dda Sir Gaerfyrddin. Ers y cyfarfod diwethaf, roedd y CHTh hefyd wedi ymweld â Chanolfan Bregusrwydd yr heddlu.

**c) Diweddariad Datblygu Pobl a'r Sefydliad**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad ddiweddariad ar ddiffiniadau graddau adolygiadau datblygu perfformiad a oedd wedi'u diweddaru i gynnwys cyfeiriad at yr angen i ymddwyn yn foesegol ac yn unol â gwerthoedd yr heddlu. Mewn ymateb i adborth staff yr heddlu, ni fydd yr heddlu yn gorchymyn blaenoriaethau'r heddlu i bawb fel amcanion personol ar gyfer 2025-2026 ond, yn hytrach, yn gofyn am ddau amcan sy'n gysylltiedig â'r cynllun cyflenwi strategol lleol ynghyd â'r cyfle i reolwyr llinell gytuno ar ddau amcan pellach. Mae'r amcanion gorfodol ar gyfer diwylliant a'r Gymraeg wedi cael eu hadnewyddu gan y Rheolwr Cydraddoldeb Amrywiaeth a'r Gymraeg i'w gwneud yn fwy perthnasol i bawb.

Bu'r bwrdd yn trafod pa fesurau lliniaru a chymorth a oedd yn cael eu darparu i ymdrin â'r risg / materion ynghylch dibyniaeth ac adnoddau a amlinellwyd yn adroddiad y diweddariad Datblygu Pobl a'r Sefydliad.

**ch) Diweddariad Adolygiad yr Heddlu**

Dywedodd y Prif Gwnstabl na fyddai diweddariad pellach i'r Bwrdd Plismona'r mis hwn ynghylch Adolygiad yr Heddlu, gan fod y dull ymchwiliol yn ailgyflwyno cynigion cychwynnol i uwch-noddwyr (24 Mawrth 2025) gyda'r llif gwaith cofnodi troseddau i'w gwblhau yn ddiweddarach yr haf hwn. Oherwydd embargo datblygu Niche ni fu unrhyw gynnydd o ran Ebit 2, 3 na 4. Nodwyd bod gwaith yn parhau i geisio gwireddu'r arbedion o ran llif gwaith yr Uned Rheoli Adnoddau. Byddai'r rota ymateb, fel y nodwyd yn y diweddariad diwethaf, yn cael ei gweithredu ar 8 Mai 2025, ac aeth y newidiadau yn sgil canlyniadau

ffrydiau gwaith gweithdrefn gweithredu safonol a thimau plismona ac atal bro yn weithredol ar 3 Mawrth 2025.

Nodwyd bod gwaith yn parhau o ran newidiadau i gymysgedd y gweithlu / gwarant plismona bro, gyda diweddariadau i'w darparu yn y cyfarfod dilynol.

## 6. I'w penderfynu

### a) Fframwaith llywodraethiant corfforaethol

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y fframwaith llywodraethiant corfforaethol ar y cyd wedi cael ei adolygu ymhellach i ystyried newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth caffael. Nodwyd bod y fframwaith wedi bod yn destun ymgynghoriad helaeth ac wedi'i adolygu gan y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae'r fframwaith yn nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r
prosesau y bydd SCHTh a Heddlu Dyfed-Powys yn cael eu llywodraethu drwyddynt, ar y cyd ac ar wahân.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y bwrdd y fframwaith llywodraethiant corfforaethol diwygiedig ar gyfer 2025-2026.**

## 7. Unrhyw fater arall

a) Gwarant plismona bro a moderneiddio'r gweithlu

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ddiweddariad ar warant plismona bro a moderneiddio'r gweithlu a cheisiodd grynhoi rhai elfennau o'r drafodaeth a gynhaliwyd gyda'r uwch-noddwyr mewn cyfarfod ar 17 Mawrth 2025 a rhoi eglurder ar y dull a gymerir gan heddlu.

Bwriad strategol y warant plismona bro a chymysgedd y gweithlu yw "Mwyafu cyfleoedd i newid cymysgedd y gweithlu trwy recriwtio staff yr heddlu i rolau sy'n galluogi rhyddhau swyddogion heddlu i'r rheng flaen trwy arian a geir trwy a) gwarant plismona bro Llywodraeth y DU, b) cynnydd ym mhraesept y Comisiynydd Heddlu a Throseddu."

Nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn dymuno cynyddu nifer cyffredinol y swyddogion heddlu oherwydd:

- Mae'r heddlu eisoes wedi cynyddu nifer y swyddogion heddlu gan 10 cyfwerth ag amser llawn dros y targed y gellir ei gynnal.
- Mae bellach yn gynyddol heriol recriwtio swyddogion heddlu.
- Niferoedd uchel yn ymadael yn annisgwyl.
- Mae nifer fawr o swyddogion heddlu yn ymgymryd â dyletswyddau nad oes angen pwerau gwarantedig / swyddog heddlu i'w cyflawni.

Er mwyn gwella gwerth am arian. Yn gysylltiedig â'r uchod, mae Heddlu Dyfed-Powys yn ceisio gwneud gwell defnydd o'r pwerau a neilltuwyd i swyddogion heddlu drwy eu hailalinio i rolau rheng flaen a galluogi staff heddlu mwy costeffeithiol i ymgymryd â swyddogaethau cefnogol. Mae hyn yn dueddol o wireddu manteision sylweddol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- dychwelyd swyddogion profiadol i dimau plismona bro rheng flaen.
- sefydlogrwydd gwell yn y rolau hynny a gafodd eu llenwi eto.
- twf amrywiaeth o fewn y gweithlu.

Mae nifer o ymarferion meincnodi wedi nodi bod gan Heddlu Dyfed-Powys niferoedd sylweddol uwch o SCCHau na'r rhan fwyaf o heddluoedd tebyg. O ganlyniad, nid oes unrhyw awydd ar hyn o bryd i gynyddu niferoedd SCCHau.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ceisio recriwtio 50 o staff heddlu cyfwerth ag amser llawn i alluogi 50 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn i ddychwelyd i'r timau plismona ac atal bro ac ymateb.

Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r 33 rôl swyddog heddlu cyfwerth ag amser llawn fod yn destun cymysgedd y gweithlu. Bydd y nifer a gymerwyd ym mis Mehefin 2025 (sydd wedi cynyddu ers y cynlluniau gwreiddiol) yn sicrhau £846,000 o'r grant ar y dyddiad ymuno.

Mae'r CHTh wedi darparu £637,000 i alluogi newidiadau i gymysgedd y gweithlu er mwyn galluogi 17 o swyddogion heddlu cyfwerth ag amser llawn i ddychwelyd i rôl ymateb.

Canolbwyntir ar y cychwyn ar recriwtio rolau cymysgedd y gweithlu i unedau ymchwilio leol, swyddogion crwneriaid, ac mae adran ddeallusrwydd leol wedi cael blaenoriaeth er mwyn galluogi dyfarnu'r grant llawn cyn gynted â phosibl.

Y cynllun yw recriwtio i'r 18 rôl cyfwerth ag amser llawn gwarant plismona bro ac 17 rôl cyfwerth ag amser llawn a ariennir gan braesept cymysgedd y gweithlu (nid yw'r cyfanswm wedi'i bennu eto, ac fe'i pennir yn dilyn cyflwyno cynigion cychwynnol (a/neu gynnar) o ffrydiau gwaith Model Gweithredu'r Heddlu (dull ymchwiliol a chofnodi troseddau). Bydd hyn yn cael ei ategu gan gyfleoedd 'naturiol' drwy ymddeoliadau rhagamcanol ac ati.

Bydd dogfen gwmpasu yn cael ei rhaeadru i lif gwaith timau plismona ac atal bro i'w chwblhau. Cynhaliwyd nifer o drafodaethau gydag arweinwyr llif gwaith model gweithredu'r heddlu i ystyried cymysgedd y gweithlu o fewn eu ffrydiau gwaith.

Bydd cyfarfod wythnosol yn cael ei drefnu i olrhain cynnydd a chyflawniad.

**Camau gweithredu: diweddariadau chwarterol i'w darparu i'r Bwrdd Plismona ar y warant plismona bro a moderneiddio'r gweithlu.**

b) Proses asesu'r effaith ar ddiogelu data

Cododd y CHTh y materion parhaus o ran proses asesu'r effaith ar ddiogelu data o fewn yr heddlu, a rhannodd rai enghreifftiau o SCHTh. Cytunwyd y byddai papur gydag enghreifftiau yn cael ei rannu â'r Dirprwy Brif Gwnstabl a'i drafod o fewn yr heddlu.

**Camau gweithredu: papur i'w rannu â'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn dogfennu'r problemau a brofwyd gyda phroses asesu'r effaith ar ddiogelu data.**

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y ffaith bod cyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Perfformiad Strategol i'w cynnal yn yr un wythnos ym mis Ebrill. Cytunodd y bwrdd i ganslo cyfarfod y Bwrdd Plismona a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill oherwydd bod y Bwrdd Perfformiad Strategol hefyd wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill. Os byddai unrhyw eitemau'n codi cyn y Bwrdd Plismona nesaf ym mis Mai, byddent yn cael eu trafod yn y Bwrdd Perfformiad Strategol ym mis Ebrill.

| Cam gweithredu | Crynodeb yn dilyn y cyfarfod ar 31 Mawrth 2025 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| | | |
| **PB 067** | Diweddariad pellach ar y strategaeth ffyrdd a'r proffil problemau i'w ddarparu i'r Bwrdd Plismona ym mis Medi 2025. | Yr heddlu |
| **PB 068** | Diweddariadau chwarterol i'w darparu i'r Bwrdd Plismona ar y Warant Plismona Bro a Moderneiddio'r Gweithlu. | Yr heddlu |
| **PB 069** | Papur i'w rannu â'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn dogfennu'r problemau a wynebwyd gyda phroses asesu'r effaith ar ddiogelu data. | SCHTh / Yr Heddlu |
| | | |
| | | |

DIWEDD